## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **03/09/2024**

**Teitl:** **Cartref Gofal Preswyl Cartref Tregerddan – Ymgynghoriad Cyhoeddus**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Cyflwyno adroddiad ac argymhellion i'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cynnig i drosglwyddo'r gwasanaeth gofal preswyl o Gartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

**Cyflwyniad**

Ar 19eg Mawrth 2024 cytunodd y Cabinet ar y canlynol:

*Cymeradwyo parhau gyda'r gofyniad statudol i ymgynghori ar drosglwyddo'r gwasanaeth gofal preswyl o Gartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.*

Agorodd ymgynghoriad cyhoeddus ar 22ain Ebrill 2024 a daeth i ben ar 15fed Gorffennaf 2024.

Pwrpas y papur hwn yw rhoi adolygiad o'r adborth i'r ymgynghoriad.

### Proses yr Ymgynghoriad

- Dosbarthwyd pecynnau'r ymgynghoriad a'r holiaduron papur i breswylwyr Cartref Tregerddan.
- Roedd holiaduron papur hefyd ar gael i randdeiliaid, gan gynnwys perthnasau a staff yng Nghartref Tregerddan, ac yn Llyfrgelloedd y Cyngor, a'i Ganolfannau Lles a'i Ganolfannau Hamdden.
- Roedd fersiwn electronig o'r ymgynghoriad ar gael drwy wefan y Cyngor.
- Roedd fersiynau print bras a fersiynau hawdd eu deall hefyd ar gael.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori ar gyfer staff, teuluoedd a phreswylwyr ar 26ain Mawrth (yn y cyfnod cyn y lansiad cyhoeddus ffurfiol), ac ar 21ain Mai, 2024.

### Canfyddiadau allweddol

***Aelodau'r cyhoedd***

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan **aelodau'r cyhoedd** (73/125), gyda'r ail grŵp mwyaf ar y cyd o ran ymatebwyr yn 15 ymateb yr un gan **weithwyr**

**proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol** a **pherthynas/partner/ffrind i breswylydd yng Nghartref Tregerddan.**

- Roedd **mwyafrif** yr ymatebion (84/125) naill ai'n **anghytuno** (17/125), neu'n **anghytuno'n gryf** (67/125) â'r cynigion.

***Perthynas/partner/ffrind preswylydd a phreswylwyr Cartref Tregerddan***

- Cafwyd 15 o ymatebion gan **berthynas/partner/ffrind preswylydd a phreswylwyr yng Nghartref Tregerddan**, roedd (6/15) yn **cytuno'n gryf** a (3/15) yn **cytuno** â'r cynnig.

- O fewn y rhain, mae'r ymatebion yn canolbwyntio ar faint bach yr ystafelloedd, eu dewis ar gyfer darpariaeth gan gynnwys ystafelloedd en-suite, gan roi mwy o annibyniaeth a phreifatrwydd.

***Staff Cartref Tregerddan***

- O'r chwe ymateb gan **staff Cartref Tregerddan** roedd (4/6) yn **cytuno'n gryf** a (2/6) yn **cytuno** â'r cynnig. Mae sylwadau'r ymatebion yn canolbwyntio ar y cyfleusterau yn rhoi mwy o gydnerthedd i staff gan gynnwys gwell mynediad allanol.

**Ymatebion cyffredinol**

- O'r ymatebion cyffredinol roedd (50/125) wedi'u cysylltu'n thematig ynghylch **pryderon ynghylch gwasanaethau sy'n lleihau** yn y sir, gyda nifer o sylwadau yn mynegi pryder a dicter ynghylch y posibilrwydd y bydd gan Geredigion lai o gartrefi gofal, yn enwedig yn y Gogledd. Codwyd **nifer y gwelyau a gollwyd** yn aml; gyda llawer o ymatebion yn awgrymu bod y sir angen mwy o leoedd yn hytrach na llai.

- Thema arall a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd pryder ynghylch **lefel y gofal** y bydd preswylwyr yn ei chael, gan gyfeirio at Dregerddan fel cartref llai gyda manteision cadarnhaol o ran lles y preswylwyr. Amlygwyd pryder pellach ynghylch **y straen a'r effaith ar les y preswylwyr** drwy'r broses symud. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at **wahanol weithrediadau'r** ddau gartref gofal, gyda Hafan y Waun yn cloi drysau tra bod preswylwyr Tregerddan yn gallu gadael y cyfleuster os dymunant.

- Thema eilaidd aml oedd **colli cymuned**, gyda llawer o ymatebion yn tynnu sylw at Dregerddan yn nodwedd o Bow Street, ac yn gartref cyfforddus i drigolion lleol. Roedd pryderon yn cynnwys y bygythiad o orfod symud perthnasau/ffrindiau allan o'r sir i gael gofal, gallu ymweld llai gan fod Hafan Y Waun ymhellach i ffwrdd.

- Thema arall i'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig oedd **ariannol**, gan awgrymu bod y weithred o gau **wedi'i hysgogi am resymau ariannol yn unig** gydag ychydig iawn o ystyriaeth i anghenion y preswylwyr a'r staff. Thema atodol gyson oedd pryderon ynghylch staffio; a fyddai'r cynnig yn **effeithio'n negyddol ar staff** presennol.

- O ran yr ymatebwyr a **gytunodd** (17/125) neu **a gytunodd yn gryf** (15/125) â'r cynigion, roedd y thema fwyaf cyffredin yn ymwneud â **chyflwr gwael Tregerddan**, gyda llawer yn gwneud sylwadau ar yr adeilad yn adfeiliedig ac **nad yw bellach o safon ddigonol**. Yn ogystal, tynnodd rhai sylw at **oblygiadau ariannol adnewyddu'r** adeilad, a phryderon ynghylch **diffyg staffio** ar draws y ddau gartref yn gwneud i'r **uno ymddangos yn fuddiol**.

**Ymateb i'r pwyntiau allweddol**

1. **Darpariaeth gofal yng Ngheredigion a darpariaeth sy'n lleihau**

   Mae gan Geredigion ddigon o welyau gofal preswyl i ateb y galw presennol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwaith pellach i'w ystyried mewn perthynas â datblygu darpariaethau nyrsio arbenigol a nyrsio dementia yn y Sir. Mae yna eisoes brosiect partneriaeth rhanbarthol sydd â’r dasg benodol o ystyried sut y gellir datblygu hyn, ar y cyd â’r bwrdd iechyd.

   Mae caffael Hafan y Waun wedi cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yng Ngheredigion o ystyried ei fod yn gyfleuster gofal 90 gwely modern a adeiladwyd i'r pwrpas.

   Fel awdurdod lleol, ni allwn gefnogi gorbenion dau gyfleuster gofal preswyl o fewn tair milltir i'w gilydd, yn enwedig gyda'r heriau a'r anawsterau sy'n wynebu sector gofal y Deyrnas Unedig gyfan, e.e. recriwtio a chadw staff medrus a chymwysedig.

2. **Staffio: lefelau gofal**

   Rydym yn cydnabod y gofal a'r cymorth eithriadol a roddir gan y staff yng Nghartref Tregerddan. Pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai preswylwyr Tregerddan wedi'u lleoli o fewn un o'r pum adain yn Hafan y Waun.

   Mae lefelau staffio ar bob sifft ym mhob cartref yr Awdurdod Lleol yn seiliedig ar anghenion gofal a chymorth penodol y preswylwyr, a bydd hyn yn amrywio. Ni fydd hyn yn wahanol yn Hafan y Waun lle caiff lefelau staffio eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau y gellir diwallu anghenion gofal a chymorth.

3. **Trosglwyddo preswylwyr i Hafan y Waun**

   Rydym yn cydnabod yr effeithiau y gall symud cartref eu cael ar breswylwyr, teuluoedd a staff. Er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i bawb dan sylw, byddwn yn dod â grŵp o weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad yn y maes hwn at ei gilydd. Byddwn hefyd yn dilyn ystod o ganllawiau arferion da i leihau'r risgiau.

   Fel rhan o'r broses hon, bydd preswylwyr yn gallu dewis ble maent yn dymuno byw ac efallai y bydd rhai yn penderfynu peidio ag adleoli i Hafan y Waun a dewis lleoliad arall. Mae ymweliadau â Hafan y Waun eisoes wedi'u darparu ar gyfer preswylwyr, teuluoedd a staff, gan gefnogi ymgyfarwyddo â'r cyfleusterau sydd ar gael.

4. **Amgylchedd Hafan y Waun**

   Rydym yn cydnabod y bydd Hafan y Waun yn teimlo'n wahanol i Dregerddan, ond rydym yn obeithiol y bydd y cyfleusterau ychwanegol yn cefnogi'r preswylwyr, staff a theuluoedd i allu gwella eu ffordd o fyw a chefnogi annibyniaeth barhaus.

   Ar hyn o bryd mae gan Hafan y Waun amgylchedd drysau ynghlo. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda'n tîm technegol i ddatblygu swyddogaethau diogelwch er mwyn i breswylwyr Tregerddan allu mynd i mewn ac allan o'r cyfleuster yn rhwydd, gyda rhagor o gyfleoedd i gael mynediad i'r ardd synhwyraidd.

5. **Colli cymuned**

   Rydym yn hynod ddiolchgar am yr ethos cydweithio y mae Cyfeillion Tregerddan wedi'i roi drwy'r broses hon, a'u parodrwydd i barhau i gefnogi preswylwyr Tregerddan, ac i gynnwys preswylwyr Hafan y Waun i ddatblygu grŵp Cyfeillion newydd yn Hafan y Waun. Mae hyn yn rhoi cyfle cyffrous i gynnal y ffocws cymunedol y mae'r grŵp Cyfeillion yn ei gynnig.

   Mae gan Hafan y Waun safle bysiau yn union y tu allan i'r cartref ynghyd â chyfleusterau parcio sy'n hawdd eu cyrraedd, a bydd y ddau ohonynt yn cefnogi teuluoedd sy'n byw yng Ngheredigion a thu hwnt i ymweld.

6. **Cyllid**

   Ar hyn o bryd rydym yn wynebu pwysau ariannol heb eu tebyg o'r blaen, ac, fel y nodwyd uchod, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i gynnal dwy ddarpariaeth gofal o fewn tair milltir i'w gilydd. Byddai costau rhedeg is o gael un ddarpariaeth Cartref Gofal yn unig, ochr yn ochr â gallu canolbwyntio buddsoddiad cyfalaf ar gyfleuster modern a adeiladwyd i'r pwrpas yn Hafan y Waun, yn hytrach na gorfod delio ag ôl-groniad sylweddol o atgyweiriadau cynnal a chadw y byddai ei angen fel arall yn Nhregerddan.

   O ran staff, os cefnogir y cynnig, bydd holl staff Tregerddan yn trosglwyddo draw i Hafan y Waun ochr yn ochr â'r preswylwyr ac yn dod yn rhan o dîm Hafan y Waun. Byddwn yn parhau i weithio a chefnogi'r staff yn Nhregerddan i adolygu unrhyw effaith heb ei chynllunio y gallai'r trosglwyddiad ei chael. Dylai'r cynnig hefyd helpu i leihau'r defnydd o staff asiantaeth.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Oes, Atodiad 1.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Mae trosglwyddo'r ddarpariaeth o'r cyfleuster llai yn Nhregerddan sy'n heneiddio i safle mwy, modern, a adeiladwyd i'r pwrpas yn Hafan y Waun yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor darpariaeth gofal preswyl

yng Ngogledd Ceredigion ac yn agor rhagor o opsiynau ar gyfer gofal dementia.

**Cydweithio:** Crëwyd grŵp prosiect hirdymor gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae hyn eisoes wedi cefnogi'r defnydd dros dro o un adain yn Hafan y Waun i gefnogi'r gwaith brys sy'n digwydd yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.

**Cynnwys**: Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer teuluoedd, preswylwyr, staff a rhanddeiliaid cyhoeddus ehangach. Bydd ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol yn parhau drwy gydol y broses drosglwyddo gan sicrhau cyfathrebu rheolaidd a gweladwy gyda'r holl rai sy'n gysylltiedig.

**Atal:** Bydd trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff i uned fwy yn creu arbedion maint ac felly'n cefnogi cynaliadwyedd darpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd y Sir.

- Mae'n rhoi cyfle i wella nifer y prentisiaethau a chynnig llwybr gyrfa yn lleol.
- Mae'n lleihau'r angen am Fuddsoddiad Cyfalaf sylweddol i atgyweirio cyfleuster sy'n heneiddio.
- Mae'n lleihau'r risg bresennol na fydd cerbydau argyfwng yn gallu mynd i'r cartref yn effeithlon oherwydd problemau mynediad.

**Integreiddio:** Yr angen i weithio ar y cyd ag iechyd i sicrhau bod mynediad amserol i ddarpariaeth gofal sylfaenol, e.e. meddygon teulu. Mae'r asesiad hwn o'r effaith wedi ystyried yr effaith ar y pedwar piler llesiant. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill a meysydd gwasanaethau yn y Cyngor i liniaru unrhyw effeithiau pellach y gellir eu nodi wrth i ni fwrw ymlaen â'r cynnig.

**Argymhelliad / Argymhellion:**

1. **Nodi'r cefndir a'r rhesymeg dros ystyried trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.**
2. **Nodi canlyniadau proses yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 22ain Ebrill 2024 a 15fed Gorffennaf 2024.**
3. **Cymeradwyo trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan gyda Chartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.**
4. **Yn amodol ar gymeradwyo (3) uchod, i awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal i:**
   i. **Sicrhau bod amserlen yn cael ei llunio ar gyfer trosglwyddiadau'r preswylwyr rhwng cartrefi, mewn ffordd sydd**
      a. **yn cydbwyso'r angen i bob unigolyn a'i deulu gael amser priodol i wneud penderfyniadau yn erbyn yr angen cyffredinol am y broses gau,**
      b. **i'w rheoli o fewn amserlen sy'n lleihau ansicrwydd i'r preswylwyr, teuluoedd a staff.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

**Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd o fewn Hafan Y Waun gan gynnwys yr amgylchedd, y lleoliad ac i nodi cyfleoedd yn y dyfodol i reoli heriau'r gyllideb yn effeithiol.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach (02.09.2024)

**Fframwaith Polisi:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
**Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth:**
Bydd trosglwyddo'r cartref i Hafan y Waun yn cynnal cyflogaeth yn Aberystwyth a'r cyffiniau.

**Creu cymunedau gofalgar ac iach:**
Trwy gael darpariaeth gofal preswyl fawr sy'n darparu ystod o ddarpariaeth arbenigol yn Aberystwyth. Bydd y cynnig yn sicrhau bod gwasanaethau gofal preswyl yn gynaliadwy, yn addas i'r diben ac yn gallu diwallu anghenion pobl Ceredigion nawr ac yn y dyfodol.

**Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu:**
Darparu cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth.
Datblygu cyfleoedd prentisiaeth ger ysgolion uwchradd mawr i bobl ifanc 16+

**Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd:**
Drwy ail-leoli Cartref Tregerddan i Aberystwyth mae'n darparu gwell rhwydweithiau bysiau i staff deithio i'r gwaith.
Lleihau'r defnydd o sawl adeilad a thrydan ac ati.
Gwell mynediad i staff, teuluoedd a cherbydau argyfwng.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Bydd y cyllidebau refeniw ar gyfer y 2 gartref yn cael eu huno ac yna bydd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu nodi i gefnogi'r heriau ariannol presennol. Yn ogystal, os yw'r Cabinet yn cytuno ar yr argymhellion, bydd angen ystyried ymhellach hefyd ynghylch yr opsiynau ar gyfer safle Tregerddan yn y dyfodol ar ôl trosglwyddiad llwyddiannus.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Amherthnasol

**Goblygiadau staffio:**
Cynigir y bydd yr holl staff sy'n gweithio yng Nghartref Tregerddan ar hyn o bryd yn uno â'r tîm staff ehangach yn Hafan y Waun. Y prif ffocws yn ystod y misoedd cyntaf fydd cefnogi'r broses bontio i'r preswylwyr i'w hamgylchedd newydd. Ni fydd dim newid i delerau ac amodau'r staff gan fod pob un yn weithwyr presennol y Cyngor. Bydd rotâu staffio a gofynion staff penodol yn parhau wrth i'r trosglwyddo ddigwydd. Cynigir cwblhau ymgynghoriad 4 wythnos gyda staff cyn uno arfaethedig. Bydd yr angen am staff asiantaeth hefyd yn parhau i gael ei adolygu bob wythnos, gyda'r nod o leihau hyn lle bynnag y bo'n ddiogel.

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Bydd papur pellach yn cael ei ddatblygu gan Adran yr Ystadau ac yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd briodol.

**Risg(iau):**

- Mwy o wariant Cyfalaf sylweddol mewn perthynas â Chartref Tregerddan pe na bai'r uno yn mynd rhagddo.
- Llai o gyfle i wneud y mwyaf o'r manteision a roddir gan safle Hafan y Waun e.e. cyfleusterau modern gwell, wedi'u lleoli'n agosach at y dref, gwell mynediad, a mwy o le yn yr awyr agored.
- Ni fyddai arbedion effeithlonrwydd yn y gyllideb yn cael eu cyflawni pe na bai'r uno yn mynd rhagddo.

**Pwerau Statudol:**

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru
- Deddf Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol Cymru

**Papurau Cefndir:**
Amherthnasol

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Asesiad Effaith Integredig

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal

**Swyddog Adrodd:**
Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Uniongyrchol

**Dyddiad:**
12/08/2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

## Manylion y Cynnig

| **Teitl y Polisi / Cynnig / Menter** | |
|---|---|
| **Trosglwyddo preswylwyr a staff Cartref Gofal Preswyl Cartref Tregerddan, Bow Street i ran o Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun, Aberystwyth.** | |
| **Maes Gwasanaeth** | **Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI** |
| Gwasanaethau Uniongyrchol | Nerys Lewis |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Strategol** |
| Donna Pritchard | James Starbuck |
| **Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** | |
| Yn dilyn caffael Cartref Gofal Hafan y Waun, Aberystwyth, mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar adolygu opsiynau ar gyfer y dyfodol ar gyfer Cartref Gofal Tregerddan yn Bow Street a'r cyfle i drosglwyddo'r preswylwyr i gartref gofal Hafan y Waun yn ogystal â'r cynnig i ymgynghori â staff a phreswylwyr Cartref Tregerddan ynghylch y trosglwyddiad arfaethedig.<br><br>Agorodd ymgynghoriad cyhoeddus ar 22ain Ebrill 2024 a daeth i ben ar 15fed Gorffennaf 2024. Mae'r AEI hwn wedi'i adolygu yn dilyn yr ymgynghoriad gan ystyried yr adborth a gafwyd. | |
| **Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? AWGRYM** | |
| • Preswylwyr wedi'u lleoli yng Nghartref Tregerddan ar hyn o bryd<br>• Teuluoedd y preswylwyr<br>• Staff Cartref Tregerddan | |
| **A yw'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?** | |
| Agorodd ymgynghoriad cyhoeddus ar 22ain Ebrill 2024 a daeth i ben ar 15fed Gorffennaf 2024.<br><br>Pwrpas y papur hwn yw rhoi adolygiad o adborth yr ymgynghoriad.<br><br>**Proses yr Ymgynghoriad**<br>• Dosbarthwyd pecynnau'r ymgynghoriad a'r holiaduron papur i breswylwyr Cartref Tregerddan.<br>• Roedd holiaduron papur hefyd ar gael i randdeiliaid, gan gynnwys perthnasau a staff yng Nghartref Tregerddan, ac yn Llyfrgelloedd y Cyngor, a'i Ganolfannau Lles a'i Ganolfannau Hamdden.<br>• Roedd fersiwn electronig o'r ymgynghoriad ar gael drwy wefan y Cyngor | |

- Roedd fersiynau print bras a fersiynau hawdd eu deall hefyd ar gael.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori ar gyfer staff, teuluoedd a phreswylwyr ar 26ain Mawrth (yn y cyfnod cyn y lansiad cyhoeddus ffurfiol), ac ar 21ain Mai, 2024.

## Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb lle bynnag y bo modd.

| **Rhif y Fersiwn** | **Awdur** | **Cam yn y broses benderfynu**<br>**AWGRYM** | **Dyddiad yr Ystyriwyd** | **Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed**<br>**AWGRYM** |
|---|---|---|---|---|
| V1.0 | Nerys Lewis | Cyn yr Ymgynghoriad/Pennu'r Gyllideb | Ionawr 2024 | Ddim yn berthnasol |
| V2.0 | Nerys Lewis | Ar ôl yr Ymgynghoriad Cyhoeddus | Awst 2024 | Ystyriaethau ar ôl yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn fersiwn AEI 2.0 |
| | | | | |
| | | | | |

## Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut?  Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

| | |
|---|---|
| **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth.** | Bydd trosglwyddo Cartref Tregerddan i Hafan y Waun yn cynnal cyflogaeth yn Aberystwyth a'r cyffiniau. |
| **Creu cymunedau gofalgar ac iach** | Trwy gael darpariaeth gofal preswyl fawr yn darparu ystod o ddarpariaeth arbenigol yn Aberystwyth. Bydd y cynnig yn sicrhau bod gwasanaethau gofal preswyl yn gynaliadwy, yn addas i'r diben ac yn gallu diwallu anghenion pobl Ceredigion nawr ac yn y dyfodol. |
| **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu** | Rhoi cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth.<br>Datblygu cyfleoedd prentisiaeth ger ysgolion uwchradd mawr i bobl ifanc 16+. |
| **Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd** | Trwy ail-leoli Cartref Tregerddan i Aberystwyth mae'n darparu gwell rhwydweithiau bysiau i staff deithio i'r gwaith.<br>Lleihau'r defnydd o sawl adeilad a thrydan ac ati.<br>Gwell mynediad i staff, teuluoedd, a cherbydau argyfwng. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi**.

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Pobl - Mae'r cynigion yn cefnogi unigolion i barhau i fyw a gweithio yng nghymuned Ceredigion, gan roi cyfleoedd i hybu cydnerthedd unigolion a chymunedau. Bydd pobl hŷn yn parhau i gael y cyfle i gael gofal yn eu hardal leol gyda chysylltiadau cryf â'r gymuned leol.<br>Lle – cefnogi pobl i gael gafael ar adnoddau cymunedol lleol<br>Menter – creu cyfleoedd ar gyfer 'mentrau cymdeithasol' yn ogystal â hyrwyddo busnesau lleol fel modd o ddiwallu anghenion. Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae'r cyfleuster (HYW) yn eu rhoi.<br>Cysylltedd – cysylltu unigolion a theuluoedd ag atebion lleol yn eu cymunedau eu hunain. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae adolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod atebion lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy, a bydd trosglwyddo preswylwyr i amgylchedd gwell ond yn dal i fod o fewn eu hardal leol yn gam cadarnhaol ac yn rhoi rhagor o gyfleoedd ar gyfer cynhwysiant lleol. Bydd amgylchedd gwell yn cefnogi bodloni gofynion y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Sicrhau bod enghreifftiau o arferion gorau yn cael eu hystyried a'u dilyn, wedi'u haddasu i gwrdd â'r cyfleoedd unigryw yng Ngheredigion. |

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

**Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru gydnerth.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Mae rhoi un ateb lleol mwy effeithlon i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn lleihau allyriadau carbon/ôl troed/effaith amgylcheddol. Mae yna arbedion maint nodedig. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae adolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod atebion lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Sicrhau bod enghreifftiau o arferion gorau yn cael eu hystyried a'u dilyn, wedi'u haddasu i gwrdd â'r cyfleoedd unigryw yng Ngheredigion. |

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru Iachach.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd y cynigion yn gwella mynediad at wasanaethau ac yn lleihau'r angen am atebion y tu allan i'r sir i ddiwallu anghenion pobl hŷn.<br>Lleihau'r angen i bobl gael eu lleoli mewn cyfleusterau dementia y tu allan i'r sir. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae adolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod atebion lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Sicrhau bod enghreifftiau o arferion gorau yn cael eu hystyried a'u dilyn, wedi'u haddasu i gwrdd â'r cyfleoedd unigryw yng Ngheredigion. |

# Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy’n Fwy Cyfartal

**Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau**.

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir i chi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Cliciwch yma am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl 18-50** | Cadarnhaol |
| **Pobl hŷn 50+** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| **Cadarnhaol**<br>• Gwell amgylchedd i blant sy'n ymweld â pherthnasau hŷn a/neu aelodau o'r teulu.<br>• Gwell amgylchedd i breswylwyr fyw a chynnal annibyniaeth yn hirach e.e., en-suite, mynediad i ardal y gegin ar gyfer gwneud eu lluniaeth eu hunain.<br>• Cynnal y ddarpariaeth yng Ngogledd Ceredigion gan leihau'r angen i fynd allan o'r Sir<br>• Dim angen i Unigolion sy'n byw gyda Dementia symud ymlaen gan fod darpariaeth ar gael yn y cartref. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?** | |
| • Gofynion Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer darpariaeth newydd sy’n gofyn am e.e., ystafelloedd en-suite ar gyfer pob ystafell wely.<br>• Mae adolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod atebion lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Mae'r cynnig yn rhoi cyfleoedd i roi tegwch ar draws gwasanaethau a darpariaeth | |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Amhariad ar y clyw** | Cadarnhaol |
| **Amhariad corfforol** | Cadarnhaol |
| **Amhariad ar y golwg** | Cadarnhaol |
| **Anabledd Dysgu** | Cadarnhaol |
| **Salwch hirdymor** | Cadarnhaol |
| **Iechyd Meddwl** | Cadarnhaol |
| **Arall** | Dewiswch eitem. |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Gwasanaethau lleol yn nes at y cartref, ffocws gofal dementia gyda gwell mynediad, rhagor o gyfleoedd mewn perthynas â'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael. Mae'r amgylchedd yn Hafan y Waun yn fwriadol yn deall dementia, sy'n cael effaith gadarnhaol ar bobl ag amhariad ar y golwg, ar y clyw a nam corfforol yn ogystal ag iechyd meddwl a salwch cronig. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae adolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod atebion lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Mae cynigion yn rhoi cyfleoedd i roi tegwch ar draws gwasanaethau a darpariaeth | |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Menywod Traws** | Cadarnhaol |
| **Dynion Traws** | Cadarnhaol |
| **Pobl Anneuaidd** | Cadarnhaol |

| |
|---|
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** |
| Effaith gadarnhaol gydag ystafelloedd ymolchi unigol en-suite yn rhoi urddas i bobl sy'n drawsryweddol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae gwasanaethau ar gael i bawb sydd ag angen dynodedig a aseswyd. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Ddim yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl Ddeurywiol** | Cadarnhaol |
| **Dynion hoyw** | Cadarnhaol |
| **Menywod hoyw / lesbiaid** | Cadarnhaol |
| **Pobl Heterorywiol** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Effaith gadarnhaol gydag ystafelloedd ymolchi unigol en-suite yn rhoi urddas i bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae gwasanaethau ar gael i bawb sydd ag angen dynodedig a aseswyd | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl sy'n briod** | Cadarnhaol |
| **Pobl mewn partneriaeth sifil** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Cadarnhaol trwy roi rhagor o weithgareddau i gefnogi pobl briod i gynnal eu perthynas, e.e. gwell cyfleoedd ciniawa, gweithgareddau grŵp | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae gwasanaethau ar gael i bawb sydd ag angen dynodedig a aseswyd | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

| | |
|---|---|
| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Beichiogrwydd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mamolaeth** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir dim effaith | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Ddim yn berthnasol | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

| **A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwyn** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau ethnig eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir dim effaith | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Ddim yn berthnasol | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Bwdhaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cristion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Hindŵaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dyneiddiwr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Iddewig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mwslim** | Dim/Fawr Ddim |

| | |
|---|---|
| **Sikh** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl heb gred** | Dim/Fawr Ddim |
| **Eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir dim effaith | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Ddim yn berthnasol | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Dynion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Bydd y trosglwyddiad yn rhoi gwell cyfleusterau a rhagor o gyfleoedd i gael mynediad i'r gymuned leol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae gwasanaethau ar gael i bawb sydd ag angen dynodedig a aseswyd | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng dynion a menywod?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

| A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog? (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Aelodau o'r Lluoedd Arfog** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cyn-filwyr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwŷr/gwragedd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Plant** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir dim effaith | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Ddim yn berthnasol | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Cadarnhaol |
|---|---|
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| I wneud iawn am y trosglwyddiad, dylai darparu gwasanaeth mwy sy'n fwy canolog leihau teithio, a chost, i ffrindiau a pherthnasau unigolion sy'n cael y gwasanaeth. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** | |
| Ddim yn berthnasol | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Ddim yn berthnasol |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

**Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da**

Cliciwch yma i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |
| Bydd y cynnig yn rhoi cyfleoedd pellach i wirfoddoli yn yr ardal leol. Bydd cyfleoedd i gyfoethogi a datblygu adnoddau cymunedol lleol yn dod â buddion i'r boblogaeth gyffredinol. Bydd darpariaeth leol gynyddol yn helpu unigolion i gynnal eu cysylltiadau cymunedol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Strategaeth Llesiant Gydol Oes 2021- 2027 |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ar lefel leol/gymunedol. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.**

Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

<table>
<tr><td colspan="2">Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd darparu gwasanaethau'n lleol a chadw unigolion o fewn eu cymuned eu hunain, er yn ehangach, yn gwella'r cyfleoedd i gynnal cysylltiadau lleol, hyrwyddo'r Gymraeg a chael gafael ar wasanaethau sy'n ystyrlon iddynt gan roi ymdeimlad o berthyn a theimlad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae adolygiadau cenedlaethol ac enghreifftiau o arferion gorau yn dangos bod atebion lleol yn fwy effeithiol a chynaliadwy ac yn awgrymu bod y dulliau gweithredu yn atal dulliau ynysig o ddarparu gwasanaethau ac ymyleiddio grwpiau penodol fel pobl ag anghenion gofal a dementia</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei ddarparu a theilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol yr unigolyn.<br>Cefnogi staff mewn cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg a chael dealltwriaeth o'r elfennau diwylliannol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gan gyfeirio at y canlynol, a ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?<br>Cliciwch yma am wybodaeth</td></tr>
<tr><td>Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg</td><td>Cadarnhaol</td></tr>
<tr><td>Trin y Gymraeg, ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg</td><td>Cadarnhaol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nifer y staff Cymraeg fydd yn trosglwyddo i Hafan y Waun gan sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael cymorth trwy eu hiaith frodorol. Cefnogi cyfleoedd i'r boblogaeth gael gafael ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Creu adnoddau Cymraeg a threfnu gweithgareddau a digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg - byddai hyn yn adeiladu cymuned estynedig rhwng preswylwyr, teuluoedd, staff, Ffrindiau Tregerddan, Swyddog Polisi Iaith a CERED.</td></tr>
</table>

| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg?** |
|---|
| Fel yr uchod |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.**

Cliciwch yma i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

| **Ydy’r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** AWGRYM |
|---|
| Nid yw'r cynnig yn effeithio ar y nod hwn |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn hon?** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at y nod?** |
| Ddim yn berthnasol |

## Cryfhau'r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

| **Beth fyddwch chi'n ei wneud?** | **Pryd?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|
| Cynnig y Cabinet i fynd allan i ymgynghoriad | Mawrth 2024 | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | Cwblhawyd |
| Byddwn yn sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei ddarparu, uwchsgilio staff a theilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol yr unigolyn. | Wrthi'n mynd rhagddo | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Byddwn yn sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ar lefel leol/gymunedol. | Mawrth 2024 – Hydref 2024 | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | 22 Ebrill – 15 Gorffennaf 2024 | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | Cwblhawyd |
| Adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus | 2 & 3 Medi, 2024 | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes | Adroddiadau wedi'u cwblhau |
| | | | |

| |
|---|
| **Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal â chyfiawnhau pam.** *(Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.)* |
| **Byddwn yn adolygu'r cynllun gweithredu yn dilyn penderfyniad y Cabinet ac yn rheolaidd drwyddo draw.** |
| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?** |
| Trwy Lywodraethu'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes. |

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol.<br><br>AWGRYM | • Mae trosglwyddo'r ddarpariaeth o Dregerddan i Hafan y Waun yn cefnogi cynaliadwyedd tymor hwy darpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd Ceredigion. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau.<br><br>AWGRYM | • Mae grŵp prosiect wedi'i greu gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â thrafodaethau â Phrifysgol Aberystwyth a phartneriaid eraill. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn.<br><br>AWGRYM | • Mae ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos wedi'i gwblhau.<br>• Adroddiad gyda chanfyddiadau allweddol yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a'r Cabinet |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu.<br><br>AWGRYM | • Bydd y cynnig yn cefnogi cynaliadwyedd darpariaeth gofal preswyl 90 gwely yng Ngogledd y Sir.<br>• Rhoi cyfle i gynyddu nifer y prentisiaethau a chynnig llwybr gofalwr yn lleol.<br>• Lleihau'r angen am Fuddsoddiad Cyfalaf sylweddol i gyfleuster o oedran.<br>• Lleihau'r risg ar hyn o bryd na fydd cerbydau argyfwng yn gallu cael mynediad i'r cartref oherwydd problemau mynediad. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaethau yn y Cyngor.<br><br>AWGRYM | • Yr angen i weithio ar y cyd ag iechyd i sicrhau bod mynediad at ddarpariaeth gofal sylfaenol amserol e.e., meddyg teulu<br>• Mae'r asesiad hwn o'r effaith wedi ystyried yr effaith ar y pedwar piler llesiant. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill a meysydd gwasanaethau yn y Cyngor i liniaru unrhyw effaith bellach y gellir ei nodi wrth i ni symud ymlaen â'r cynnig. |

## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |
| **Disgrifiad o'r Risg** | | **Effaith** | **Tebygolrwydd** | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) | |
| Anallu i sicrhau cymeradwyaeth i symud ymlaen â'r cynnig yn ei gyfanrwydd | | 5 | 2 | 10 | |
| Gwaith adnewyddu / gweithgarwch paratoi Hafan y Waun yn gohirio trosglwyddiadau | | 3 | 3 | 9 | |
| Salwch, e.e. brigiad o achosion o covid yn gohirio trosglwyddiadau | | 3 | 2 | 6 | |
| Protestiadau Cymunedol | | 4 | 1 | 4 | |

## Cymeradwyo

| **Swydd** | **Enw** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | Nerys Lewis | | 14/08/2024 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | Donna Pritchard | | 14/08/2024 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | Barry Rees | | 20/08/2024 |
| **Deiliad y Portffolio** | Y Cynghorydd Alun Williams | | 22/08/2024 |